










# Crynodeb o'n Cwricwlwm

## Ein Gweledigaeth

**Mae holl fywyd a gwaith yr ysgol yn seiliedig ar dri nod cytûn ar gyfer ein disgyblion a'n staff, sef hybu balchder yn ein Cymreictod, parchu ein gilydd a gwneud ein gorau glas.**

Ein bwriad yw sicrhau fod pob disgybl yn gwireddu eu llawn botensial. I gyflawni hyn, bydd Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn datblygu profiadau cyffrous a deinamig sy'n medru addasu'n gyflym i heriau addysgu'r unfed ganrif ar hugain. Mae hon yn ysgol sy'n datblygu strategaethau ac addysgeg ar sail ymchwil ac yn ysgol sydd yn barod i fentro ac arbrofi wrth dorri tir newydd fel ysgol arloesol Cwricwlwm i Gymru

Cred yr ysgol yw bod pob disgybl yn unigryw a bod pob plentyn yn cyfri. Dylai'r ysgol felly fod yn sefydliad sydd yn helpu disgyblion i oresgyn unrhyw anawsterau ac sy'n grymuso ein dysgwyr i ddod yn ddinasyddion sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau. Ysgol ag iddi ethos gynhwysol, person-ganolog yw Ysgol Gymraeg Aberystwyth sy'n paratoi pob dysgwr i gofleidio heriau'r dyfodol drwy ddarparu awyrgylch hapus iddynt ddatblygu eu medrau i'r eithaf ac sy'n cadw anghenion ac uchelgais pob disgybl wrth wraidd yr hyn a gynigwn o fewn ein cwricwlwm.

Fel Ysgol Gymraeg gyntaf Cymru rydym eisiau sicrhau bod disgyblion sydd yn ein gadael yn unigolion hyderus, gwybodus, creadigol ac egwyddorol. I gyflawni hyn, byddwn yn darparu cwricwlwm a phrofiadau dysgu cydlynus a chyfoethog.

Mae'r Ysgol Gymraeg yn meithrin dysgwyr iach, annibynnol a dwyieithog sy'n ymhyfrydu yn eu hysgol a'u cymuned. Bydd disgyblion yr ysgol yn ddysgwyr sy'n dangos parch at holl randdeiliaid yr ysgol ac yn unigolion uchelgeisiol sy'n gosod safonau uchel i'w hunain yn barhaus. Bydd yma ymdeimlad cryf o gydweithio fel un gymuned ac o ganlyniad bydd disgyblion, staff, rhieni a gofalwyr, llywodraethwyr a holl randdeiliaid yr ysgol yn aelodau balch o'n cymuned i wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.







## Y daith i wireddi ein Cwricwlwm

Fel ysgol arloesol, rydym wedi bod yn gwrando ar lais rhanddeiliaid wrth baratoi at gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Mae ein cwricwlwm yn perthyn i'r dysgwyr, rhieni, staff a chymuned ehangach yr ysgol. Yn benodol, mae llais y disgybl wedi bod yn allweddol yn y broses ddylunio ac rydym wedi bod yn cydweithio â'r dysgwyr er mwyn paratoi cwricwlwm cyffrous, heriol a pherthnasol.

Rydym wedi bod yn arwain ac hyfforddi staff er mwyn sicrhau hyder ac arloesedd wrth gynllunio cwricwlwm sy'n hyrwyddo'r pedwar diben ac byddyn yn parhau i gynnal hyfforddiant ysgol gyfan ar y 12 egwyddor addysgeg er mwyn sicrhau darpariaeth sydd yn unol ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru. Mae ein staff wedi manteisio ar rwydweithiau ac hyfforddiant sirol a chenedlaethol.

Mae'r Tîm Rheoli wedi bod yn monitro a gwerthuso'r cynnydd a wnaed wrth gyflwyno Cwricwlwm i Gymru a chynllunio'r camau nesaf. Trwy gydoel y broses rydym wedi bod yn mapio'r cyfleoedd ysgol gyfan i wireddu egwyddorion y Pedwar Diben er mwyn gwerthuso a chynllunio ymlaen.

## Hanfod y Dysgu

## Y Pedwar Diben

Mae pedwar diben y cwricwlwm, fel yr amlinellir yn Dyfodol Llwyddiannus, wedi bod yn sail i'r holl waith o gynllunio a datblygu Cwricwlwm i Gymru yn Ysgol Gymraeg Aberyystwyth. Dyma'r man cychwyn ar gyfer pob penderfyniad am Gwricwlwm i Gymru 2022 ac rydym wedi llywio cwricwla ar yn unol â'r pedwar diben hwn. Mae ein 'cwricwlwm' yn cynnwys yr holl brofiadau dysgu a gweithgareddau asesu a gynlluniwyd er mwyn cyflawni pedwar diben y cwricwlwm, sef datblygu plant a phobl ifanc i fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae Cwricwlwm i Gymru 2022 wedi'i gynllunio i helpu pob dysgwr i wireddu'r pedwar diben hwn. Yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth, mae pob diben yn fwy na phennawd; fe'u disgrifir hefyd yn nhermau nodweddion allweddol. Dylent, yn eu cyfanrwydd, fod yn sail i'r holl addysgu a dysgu yn yr Ysgol.

## Cwricwlwm Cynhwysol

Rydym yn benderfynol o sicrhau cwricwlwm cynhwysol sydd yn hygyrch i bob disgybl ac yn ymateb i'r cod Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd. Bydd ein holl staff yn ymrwymo i sicrhau strwythur cwricwlwm arloesol i ddiwallu anghenion disgyblion ar hyd y continwwm dysgu.

Rydym yn hyderus ein bod wedi dylunio cwricwlwm sydd yn addas ar gyfer dysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a doniau sydd yn ystyried ADY pob dysgwr.

**Gweler polisi ADY / Cynhwysiant**














## Ein Cwricwlwm ar waith

Mae cyfrifoldeb cyfunol arnom i ysbrydoli, ysgogi ac ennyn diddordeb ein disgyblion wrth gwireddu pedwar dibyn y cwricwlwm. Bydd y cwricwlwm cynlluniedig, cynhwysol, eang, cytbwys a heriol newydd yr ysgol yn cael ei ddatblygu gan ganolbwyntio ar y datganiadau o'r "hyn sy'n bwysig" sydd o dan y chwe maes dysgu a phrofiad a ganlyn.

- **Celfyddydau Mynegiannol**
- **Dyniaethau**
- **Mathemateg a Rhifedd**
- **Iechyd a Lles**
- **Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu**
- **Gwyddoniaeth a Thechnoleg**



Caiff dysgwyr eu haddysgu trwy themâu trawsgwricwlaidd ac mae'r wybodaeth a'r sgiliau o'r chwe MDPh yn cael eu plethu i'r testunau.

Bydd ein cwricwlwm yn cynnwys tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd – llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

**Yn ogystal bydd Cwricwlwm Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn;**

- Cynnwys darpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i'r dysgwyr hynny ym Mlwyddyn 1 ac uwch yn unol â gofynion y CiG.
- Yn cynnwys darpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cyd-fynd â'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a gwneud hyn mewn ffordd sy'n briodol o safbwynt datblygiad y dysgwyr. (<u>**Gweler Cynlluniau Gwaith Iechyd a Lles**</u>)



## Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgeg i gyflawni'r weledigaeth

Yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth rydm yn benderfynol y dylai disgyblion arwain agweddau ar eu dysgu eu hunain ac yn hwyluso hyn trwy eu harferion addysgu rhagorol. Rydym eisiau rhagori yn yr egwyddorion addysgegol sy'n ategu'r cwricwlwm newydd.

Mae pob un o'n staff, y disgyblion, y llywodraethwyr a'r rhieni yn credu yn egwyddor arweiniol yr ysgol, sef y dylai disgyblion fod wrth wraidd y broses addysgu a dysgu ac y dylai disgyblion berchnogi eu hysgol a phopeth sy'n digwydd ynddi. Mae hyn yn ganolog i ethos, gweledigaeth ac arfer ddyddiol yr ysgol ac yn golygu bod disgyblion yn gwneud dewisiadau gwybodus yn gyson ynglŷn â beth maent yn ei ddysgu, a sut.

Er mwyn rhagori yn addysgeg, bydd ein athrawon:

- yn cynnal ffocws cyson ar ddibenion cyffredinol y cwricwlwm
- yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain
- yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol
- yn annog cydweithio
- yn herio pob un o'r disgyblion trwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrech gynaledig wrth fodloni disgwyliadau sy'n uchel ond y mae modd iddynt eu cyflawni
- yn defnyddio cyfuniad o ddulliau, gan gynnwys y rheiny sy'n hyrwyddo datrys problemau, meddwl creadigol a beirniadol
- yn gosod tasgau ac yn dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb
- yn creu cyd-destunau go iawn ar gyfer dysgu
- yn defnyddio egwyddorion asesu ar gyfer dysgu
- yn atgyfnerthu cyfleoedd trawsgwricwlaidd yn rheolaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, ac yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion eu hymarfer


















## Datblygu'n Sefydliad Dysgu

Yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth rydym yn gweithio tuag at ymgorffori proses ddyheadol i weddnewid yr ysgol i fod yn sefydliad dysgu. Mae yna weledigaeth gyfrannol a ganolwyd ar ddysgu pob dysgwr, gyda'r nod o gynyddu'r profiadau dysgu a'r deilliannau i bawb. Trwy greu a chefnogi cyfleoedd dysgu parhaus i'r staff i gyd rydym yn sefydlu diwylliant o ymholiad, arloesedd ac ymchwiliad.

Trwy systemau ar gyfer casglu a chyfnewid gwybodaeth ar gyfer dysgu rydym yn asesu effaith ac yn archwilio cynnydd. Fel ysgol rydym yn agored i weithio gyda darparwyr allanol, cyfoedion a chydweithwyr mewn ysgolion eraill, rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach er mwyn datblygu a dysgu wrth ei gilydd ar draws y gymuned a Chymru.

Mae arweinwyr yn modelu arweinyddiaeth dysgu ac yn helpu i dyfu hyn ar draws yr ysgol, yn cynnwys dysgwyr. Yn unol â blaenoriaethau ar gyfer dysgu proffesiynol yr holl staff disgwylir i bob ymarferydd gymryd cyfrifoldeb am ei ddatblygiad a'i ddysgu proffesiynol ei hun a chyfrannu tuag at ddatblygiad eraill. Gallwn atgyfnerthu blaenoriaethau ar gyfer dysgu proffesiynol yr holl staff gan sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn cefnogaeth a gwerthfawrogiad er mwyn parhau i ddatblygu i fod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.

Byddwn ni fel ysgol yn sicrhau ein bod ni yn datblygu sail system hunan wella drwy gefnogi cydweithio o fewn yr ysgol ac mewn cydweithrediad ag ysgolion eraill, sir Ceredigion a sefydliadau addysg uwch byddwn yn adeiladu ar ein hymrwymiad i ragoriaeth mewn addysg.

**Gweler Cynllun Gwella Ysgol**



## Trefniadau asesu a sicrhau cynnydd pob disgybl

Bydd ein trefniadau asesu yn gwreiddio fel rhan annatod o'r ymarfer dydd i ddydd sy'n addas i bob dysgwr. Fel rhan o'r Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu yn y CiG) 2022, byddwn yn sicrhau ein bod yn:

- gwneud trefniadau ar gyfer asesiad parhaus o bob disgybl a phlentyn drwy gydol y flwyddyn ysgol gan ymarferydd;
- gwneud trefniadau ar gyfer asesiadau wrth dderbyn disgyblion, a chynnal yr asesiadau hynny i bob plentyn/disgybl ar adegau penodol;
- gweithio o fewn yr ysgol a chydag ysgolion eraill i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd a chynllunio ar gyfer pontio dysgwyr rhwng ysgolion;
- darparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr fel eu bod yn deall cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud.

**Gweler y trefniadau asesu a pholisi adborth.**









Ein bwriad yw bydd ein Cwricwlwm yn esblygu ac na fydd byth yn gwricwlwm gorffenedig. Yn hytrach, byddwn yn gwerthuso ac addasu'r ddogfen uchod er mwyn sicrhau Cwricwlwm o'r radd flaenaf.

Adolygwyd a mabwysiadwyd y ddogfen hon ddiwethaf yng Ngorffennaf 2025.

*Gareth L James*

Pennaeth

*Nia Wyn Evans*

Cadeirydd y Corff LLywodraethol

YSGOL GYMRAEG ABERYSTWYTH

Ysgol Gymraeg Aberystwyth